

“Sut y gallaf dalu i’r Arglwydd am ei holl haelioni tuag ataf?”

(Salm 116: 12)

Yn y bôn, mater o feistroli iaith arbennig yw crefydd!

Y mae’r fath beth ag **iaith prynu a gwerthu**. Sylfaen bywyd yw “*balance-sheet*”, a’r cwestiwn llosg yw: Beth sydd mewn llaw? Ni lwyddodd crefydd erioed wrth siarad felly!

Iaith arall yw **iaith gwobrwyo a chosbi**. Gweld bywyd fel rhyw fath o Lys Barn yw hyn, a rhannu pawb i ddau ddsbarth: y Teilwng a’r Annheilwng. Ni lwyddodd crefydd erioed wrth siarad felly!

Iaith rhoi a derbyn yw iaith y Salmydd yn Salm 116. Haelioni Duw yw’r peth mwyaf a wêl, a’r cwestiwn canolog iddo bellach yw:

“*Sut y gallaf dalu i’r Arglwydd am ei holl haelioni tuag ataf?*”

Gwêl y Salmydd nad oes ond un ateb! Mae talu’n ôl i Dduw yn amhosibl; byddai talu’n ôl i’r fath Roddwr yn troi ei rodd yn fargen! Un ymateb yn unig sy’n weddus. Gwneud bywyd i gyd yn act o dderbyn teilwng, a thrwy hynny mawrhau’r Rhoddwr. “*Cwpan iachawdwriaeth a gymeraf, ac ar enw’r Arglwydd y galwaf.*” (Salm 116:13)

Mesur ein crefydd, yw mesur ein gallu i dderbyn gan Dduw.

Derbyn cyn lleied yw ein trafferth.

Gweddïwn:

Gweddïwn, Arglwydd, dros ein cenedl a’i phobl:
Dros ein cymdogaethau, ein trefi a’n pentrefi;
Dros ein cartrefi a’n bywyd teuluol;
Dros ein hysgolion, ein colegau a’n pobl ifanc;
Dros sefydliadau cyhoeddus, gwleidyddion a chynghorwyr;
Dros ddiwydiannau a’u gweithwyr;
Dros gefn gwlad a phawb sy’n trin y tir;
Dros y cyfryngau, cynhyrchwyr a darlledwyr, dros fudiadau diwylliannol, llenorion a beirdd;
Dros ysbytai, meddygon a chleifion;
Dros bawb sy’n gweinyddu’r gyfraith;
Dros y tlawd, y digartref a’r di-waith;
Dros ein heglwysi a’u cynulleidfaoedd, a thros ledaeniad Teyrnas Dduw yn ein plith.

Rhag pob brad, nefol Dad, taena d’adain dros ein gwlad.

(Elfed ap Nefydd Roberts allan o *Amser i Dduw. Trysorfa o Weddiau Hen a Newydd.*
Cymdeithas Lyfrau Ceredigion Gyf. 2004)